Adroddiad ar y ddarpariaeth addysg bellach yng

Ngholeg y Cymoedd

Heol y Coleg
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QY

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg y Cymoedd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg y Cymoedd |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newidiadau yn enw'r darparwr neu'r campysau, uno, cyfuno neu newid mewn perchnogaeth | Penodi Pennaeth newydd ym mis Medi 2022 |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach amser llawn | 4600 |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach rhan-amser | 4835 |
| Manylion am ddarpariaeth / rhaglenni addysg bellach y coleg (h.y. mwy ar gymeriad y coleg a'i arbenigeddau) | Mae Coleg y Cymoedd, a sefydlwyd yn 2013 trwy gyfres o uno sefydliadau rhwng 1992 a 2012, yn gweithredu ar draws pedwar campws sydd wedi'u lleoli yn Nantgarw, Ystrad Mynach, Rhondda, ac Aberdâr, yn gwasanaethu ardaloedd awdurdodau lleol Caerffili, Rhondda Cynon Taf (RhCT), a Merthyr Tudful. Ac yntau'n sefydliad addysg bellach o faint canolig, mae tua 4,600 o ddysgwyr addysg bellach amser llawn, a thua 4,835 o ddysgwyr rhan-amser yn mynychu'r coleg. Mae'n cyflogi 362 o athrawon addysg bellach cofrestredig a 257 o weithwyr cymorth dysgu addysg bellach cofrestredig, yn ôl data cofrestredig CGA ar gyfer 2024. Mae'r coleg yn cynnig casgliad amrywiol o raglenni galwedigaethol, sy'n cyfrif am ryw 90% o'r ddarpariaeth gyffredinol, yn ogystal â chyrsiau addysg gyffredinol, sy'n cyfrif am y 10% sy'n weddill. Derbyniodd Coleg y Cymoedd ddyraniad cyllid o ryw £36.9 miliwn am ei ddarpariaeth addysg bellach yn 2024-2025. |

| | |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) | • Nifer y dysgwyr â CDUau: 168 (a 41 o ddysgwyr ychwanegol sydd â Chynlluniau Cymorth Dysgu gan ysgolion)<br>• Nifer y dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal: 184 |
| Canran y dysgwyr sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu’n nodi eu bod yn siarad Cymraeg? | 15% |
| Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | 311 o ddysgwyr amser llawn |
| Canran y dysgwyr o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | 63.3% |
| Canran y dysgwyr sy’n hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | 33.5% |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg | 362 o athrawon; 257 o staff cymorth |
| Perchnogaeth o’r coleg (corfforaeth addysg bellach annibynnol neu is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sefydliad addysg bellach) | Corfforaeth addysg bellach annibynnol |
| Dyddiad penodi’r Prif Weithredwr / Pennaeth | Medi 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 01/11/2017 |

## Crynodeb

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau cadarn, ac yn cymhwyso'r rhain yn hyderus mewn cyd-destunau ystafell ddosbarth a galwedigaethol, fel ei gilydd. Maent yn elwa ar brofiadau difyr sy'n cefnogi datblygiad medrau cyflogadwyedd a medrau bywyd, gan eu helpu i baratoi ar gyfer dysgu neu gyflogaeth bellach. Mae perthnasoedd rhwng staff a dysgwyr yn barchus a chefnogol, gan helpu creu amgylcheddau dysgu cadarnhaol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi eu cymell ac yn ymfalchïo yn eu gwaith.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio sesiynau wedi'u strwythuro'n dda ac yn defnyddio ystod addas o ddulliau i ennyn ymgysylltiad dysgwyr. Mae ychydig o athrawon yn defnyddio offer digidol ymgolli, fel realiti rhithwir a deallusrwydd artiffisial (AI) cynhyrchiol, i ymestyn dysgu a datblygu hyder dysgwyr mewn cymhwyso medrau newydd. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ar lafar i helpu dysgwyr i wella, er bod ansawdd adborth wedi'i recordio ac adborth ysgrifenedig yn fwy amrywiol. Mewn ychydig o sesiynau, caiff yr addysgu ei arwain yn ormodol gan athrawon, neu mae holi gwan yn cyfyngu ymhellach ar annibyniaeth a chynnydd dysgwyr. Nid yw athrawon bob amser yn herio dysgwyr digon i gyrraedd eu llawn botensial.

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd croesawgar a chynhwysol. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cefnogaeth, ac yn gwerthfawrogi'r ystod o wasanaethau bugeiliol buddiol sydd ar gael. Mae dysgwyr yn mwynhau cyfleoedd cyfoethogi ac arweinyddiaeth ac yn elwa ar arweiniad personoledig ar ddilyniant. Maent hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o brosiectau cymunedol, cystadlaethau a gweithgareddau dysgu ehangach sy'n helpu magu hyder, yn cryfhau gwaith tîm, ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Fodd bynnag, mae presenoldeb dysgwyr yn rhy isel ac yn effeithio ar ddeilliannau mewn ychydig o feysydd. Nid yw pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dysgwyr, ac mae hyn yn cyfyngu ar gysondeb y cymorth a ddarperir ar draws y coleg.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi gosod cyfeiriad strategol clir ac yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allanol i ddiwallu anghenion lleol. Maent yn hyrwyddo cydweithio, yn cefnogi datblygiad proffesiynol, ac yn sicrhau bod cyfleusterau ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar waith i gyflawni blaenoriaethau'r coleg yn effeithiol. Mae'r coleg wedi rhoi blaenoriaeth briodol i ddatblygu medrau Cymraeg mewn meysydd cwricwlwm penodol. Mae arweinwyr hefyd yn cymryd camau rhagweithiol i arwain defnydd moesegol a phwrpasol o dechnolegau datblygol, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r coleg i barhau i wella, sef:

A1 Gwella effaith addysgu gyda ffocws ar herio pob dysgwr yn ddigonol i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau.

R2 Sicrhau bod pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn gwybod am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) eu dysgwyr, fel mater o drefn, a darparu cymorth priodol.

A3 Defnyddio dull cyson i reoli absenoldeb dysgwyr i wella presenoldeb.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 neu adran 62 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, bydd y darparwr yn paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn effeithiol ac yn ei gymhwyso'n hyderus i dasgau presennol. Er enghraifft, yn y celfyddydau perfformiadol, mae dysgwyr yn galw technegau coreograffi i gof fel troadau jazz yn ystod tasgau perfformio, ac yn y gyfraith Safon Uwch, mae dysgwyr yn galw achosion cyfreithiol i gof yn fanwl i gefnogi eu dadleuon yn y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn caffael gwybodaeth newydd ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn briodol ar gyfer eu lefel. Er enghraifft, mae dysgwyr cyfrifyddu yn trafod swyddogaethau taenlen a fformiwlâu y maent wedi'u dysgu yn hyderus i'w galluogi i adalw data ar gyfer eu prosiectau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr galwedigaethol yn datblygu ac yn dangos safonau cymhwysedd ymarferol sy'n gymesur â'u lefel a'u cyfnod ar y rhaglen. Mae dysgwyr gwaith coed yn mesur ac yn marcio pren yn gywir gan ddefnyddio ystod o offer. Mae dysgwyr gwallt a harddwch yn cynnal meysydd gwaith proffesiynol ac yn dilyn gweithdrefnau hylendid trwy gydol sesiynau. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau ymarferol yn hyderus mewn lleoliadau byd go iawn, fel lleoliadau gwaith, amgylcheddau wedi'u hefelychu, a gweithgareddau cymunedol. Mae hyn yn eu galluogi i ddeall perthnasedd eu dysgu a sut mae'n cyfrannu at eu nodau dilyniant ehangach.

Mae llawer o ddysgwyr yn elwa ar ymdeimlad cryf o gymuned yn y coleg, sy'n aml yn cael ei adlewyrchu yn eu hymglymiad mewn prosiectau cyfoethogi a chymunedol fel diwrnodau maldod, gwirfoddoli mewn grwpiau, a pherfformiadau cyhoeddus. Mae hyn nid yn unig yn magu eu hyder ond hefyd yn datblygu medrau cyflogadwyedd a'u medrau bywyd gwerthfawr.

### Ciplun: Cymorth ar gyfer llwyddiant mewn chwaraeon

Mae dysgwyr ar draws ystod o sectorau sy'n meddu ar allu cryf iawn mewn chwaraeon yn elwa ar Gynllun Ysgoloriaeth Athletwyr Dawnus (TASS) blaenllaw'r coleg. Yn 2024/25, derbyniodd 49 o ddysgwyr statws Gyrfa Ddeuol TASS yn dilyn proses ddethol drylwyr o blith 136 o ymgeiswyr. Mae'r dysgwyr hyn yn manteisio ar fentoriaeth strwythuredig a chymorth â ffordd o fyw, gan gynnwys cynllunio academaidd ac arweiniad lles. Mae llawer o'r dysgwyr sy'n cymryd rhan yn TASS yn mynd ymlaen i lwyddo ym myd chwaraeon yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr ar draws y coleg yn briodol i'w lefel astudio, ar y cyfan. Yn yr achosion gorau, caiff datblygiad rhifedd a llythrennedd dysgwyr ei ymgorffori mewn pynciau galwedigaethol, ac mae dysgwyr yn cymhwyso hyn i dasgau byd go iawn fel cyllidebu, dadansoddi data, ac ysgrifennu traethodau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau sylfaenol yn gyson mewn sillafu, atalnodi a gramadeg.

Ar draws y coleg, ceir enghreifftiau cyfyngedig o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg yn ystod sesiynau, neu o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dewis defnyddio'u medrau Cymraeg. Mae'r enghreifftiau cryfaf o ymgorffori'r Gymraeg yn effeithiol ym meysydd blaenoriaeth y cwricwlwm, yn cynnwys diwydiannau creadigol, chwaraeon a gwasanaethau cyhoeddus, adeiladu, busnes, gofal plant, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mewn cynhyrchu'r cyfryngau, mae'r hwylusydd yn cynorthwyo dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i gynhyrchu rhaglen ddogfen Gymraeg ar annibyniaeth i Gymru. Mewn gofal plant, mae'r hwylusydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu ymadroddion Cymraeg i'w defnyddio tra byddant ar leoliad gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn uchelgeisiol i symud ymlaen ymhellach yn eu hastudiaethau a'u gyrfaoedd, a chaiff trafodaethau ynglŷn â'r camau nesaf eu hymgorffori'n naturiol o fewn eu profiadau addysgu a dysgu. Mae llawer o ddysgwyr wedi ymgysylltu â hyb gyrfaoedd 'Dyfodol' y coleg ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u llwybrau dilyniant a'r canlyniadau y mae angen iddynt eu cyflawni i gyrraedd eu nodau.

Mae perthnasoedd rhwng staff a dysgwyr yn gryf ar draws y coleg y tu mewn a'r tu allan i sesiynau dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn creu amgylcheddau dysgu proffesiynol, cynhwysol a thawel ac yn dod i adnabod eu dysgwyr yn dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn disgrifio sut mae cymorth personoledig a pherthnasoedd cadarnhaol â'u tiwtoriaid wedi eu helpu i feithrin hunan-barch, datblygu hyder, a chynnydd yn eu dysgu. O ganlyniad i barch ar y ddwy ochr rhwng athrawon a dysgwyr, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn frwdfrydig, wedi'u cymell ac yn dangos balchder clir yn eu gwaith. Maent yn cynnal ffocws, yn cymryd rhan yn weithredol mewn tasgau, ac yn barchus a chefnogol i'w cyfoedion. Er enghraifft, mae dysgwyr Medrau Byw yn Annibynnol yn annog eu cyfoedion i gyfrannu, ac maent yn dathlu cyflawniadau ei gilydd â brwdfrydedd.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu addas a gweithgareddau ymarferol i ennyn ymgysylltiad dysgwyr, a'u cynorthwyo. Mae sesiynau wedi'u strwythuro'n dda, ar y cyfan, yn integreiddio gwybodaeth ddamcaniaethol a chymhwyso ymarferol, ac yn cefnogi cynnydd cyson yng ngwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr. Fodd bynnag, nid oes digon o sesiynau'n darparu lefelau o her i ymestyn pob un o'r dysgwyr, yn enwedig mewn sesiynau galwedigaethol. Mewn ychydig o achosion, caiff y dysgu ei arwain yn ormodol gan yr athro, gan adael cyfle prin i ddysgwyr feddwl yn annibynnol neu ddatrys problemau. Mewn sesiynau eraill, nid yw holi athrawon yn procio dealltwriaeth yn effeithiol, neu mae'n dibynnu gormod ar ddysgwyr mwy blaenllaw, gan adael dysgwyr eraill yn oddefgar neu wedi ymddieithrio. O ganlyniad, nid yw pob un o'r dysgwyr yn cymryd perchnogaeth briodol dros eu dysgu eu hunain nac yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae athrawon yn defnyddio adborth llafar yn dda yn y rhan fwyaf o sesiynau. Mae llawer o ddysgwyr yn ymateb yn dda i hyn, ac yn ei ddefnyddio i wella'u perfformiad a datblygu eu medrau. Er enghraifft, mewn peirianneg, caiff asesiadau ymarferol eu monitro'n gyson gydag adborth llafar, gan greu cyfleoedd ar gyfer ymestyn a gwahaniaethu. Fodd bynnag, mae adborth wedi'i recordio neu adborth ysgrifenedig ar gael yn llai cyson i ddysgwyr, ac mewn ychydig o achosion, mae'n rhy generig ac nid yw'n cynnwys gwybodaeth am sut gall dysgwyr wella'u gwaith.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod o offer digidol yn effeithiol i gefnogi dysgu. Mewn ychydig o achosion, maent yn defnyddio technolegau trochi fel realiti rhithwir i efelychu amgylcheddau gweithle, yn ymestyn gwybodaeth bynciol, ac yn datblygu hyder dysgwyr mewn tasgau ymarferol. Mae ychydig o ddysgwyr hefyd yn elwa ar arweiniad strwythuredig ar ddefnydd moesegol a phwrpasol o ddeallusrwydd artiffisial. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r defnydd a wneir o'r offer digidol datblygol hyn yn gyfyngedig.

### Ciplun 2: Platfformau digidol yn cefnogi cysylltiad

Mae bron pob un o'r athrawon ar draws y coleg yn defnyddio platfformau digidol yn hynod effeithiol i reoli a chynllunio dysgu, rhannu adnoddau, olrhain cynnydd dysgwyr, a chyfathrebu â'u dysgwyr. Maent yn defnyddio platfformau digidol yn gyson i rannu gwybodaeth allweddol gyda staff addysgu a staff cymorth eraill ar draws pob campws ynghylch materion fel ymddygiad, presenoldeb a lles dysgwyr. Mae'r dull cydlynus trawsgolegol hwn yn helpu'r coleg i ddarparu ymyriadau a chymorth amserol ar gyfer dysgwyr, lle mae angen. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio'r platfformau hyn yn hyderus i reoli a chyflwyno'u gwaith a chyfathrebu â'u tiwtoriaid, gan ddangos a datblygu medrau digidol cryf.

Data deilliannau swyddogol diweddaraf y coleg yw'r data mesurau cyson ôl-16 ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024, ond ar hyn o bryd, nid oes data cenedlaethol ar berfformiad o gymharu â dysgwyr o ddemograffeg debyg ar gael ar gyfer 2023-2024. Er 2022, bu dysgwyr ar raglenni galwedigaethol yn y coleg yn cyflawni deilliannau uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol, i raddau amrywiol, ar bob lefel. Bu dysgwyr ar raglenni Mynediad yn cyflawni uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyflawnodd dysgwyr sy'n ennill tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy dros ddwy flynedd ddeilliannau sy'n cyd-fynd â chyfartaleddau cenedlaethol, at ei gilydd. Mae deilliannau dysgwyr ar gyfer rhaglenni rhan-amser yn llai cryf ar draws y coleg nag ar gyfer rhaglenni amser llawn.

I wella ymhellach yn y maes hwn, dylai'r coleg:

- Sicrhau bod addysgu yn herio pob un o'r dysgwyr yn gyson ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd cryf.
- Cryfhau cysondeb a chwmpas yr arweiniad i gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial yn effeithiol ac yn foesegol yn eu dysgu.
- Gwella deilliannau ar raglenni Mynediad ac ar draws darpariaeth ran-amser.
- Cryfhau defnydd o'r Gymraeg trwy gynorthwyo pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys siaradwyr rhugl, i ddatblygu a chymhwyso'u medrau Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

## Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r perthnasoedd parchus a chadarnhaol rhwng staff a dysgwyr yn gryfder yn y coleg. Trwy geisio deall amgylchiadau unigol dysgwyr a gwrando ar eu lleisiau, ac ymateb iddynt, mae'r coleg wedi creu amgylcheddau cynhwysol ac ymddiriedus ar draws ei gampysau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda ac wedi eu cymell i ddysgu. Er enghraifft, mewn sesiwn gwaith coed, mae'r tiwtor yn diwallu anghenion dysgwyr trwy ddefnyddio radio cefndir ar gyfer cysur synhwyraidd, yn caniatáu egwylion symud, ac yn cynllunio o gwmpas gofynion meddyginiaeth. Mae hyn yn cefnogi a gwella agweddau, presenoldeb a chyrhaeddiad dysgwyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn mwynhau mynychu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn rhannu barn gadarnhaol am eu profiadau yn y coleg, yn enwedig ynghylch y cymorth a gânt gan athrawon a staff cymorth.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgwyr ymgymryd â rolau arwain. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn glir ynghylch cynrychiolaeth cyrsiau a rôl y llysgenhadon dysgwyr, er nad oes cynrychiolydd dosbarth dynodedig ar gyfer pob cwrs. Mae llawer o ddysgwyr yn gadarnhaol am y rolau hyn a'r cyfleoedd i roi adborth a dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae'r coleg yn rhoi pwyslais cryf ar les i gynorthwyo dysgwyr i fwynhau eu dysgu. Mae wedi symud oddi wrth yr ymagwedd yn seiliedig ar gosbau at reoli ymddygiad, i fabwysiadu 'polisi perthynas a chymorth i ddysgwyr'. Mae'r coleg yn gweithio tuag at ei nod i sefydlu 'amgylcheddau cefnogol ac sy'n ddiogel yn seicolegol'. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth bugeiliol a ddarperir gan diwtoriaid a staff cymorth. Mae 'hybiau lles' sydd wedi'u lleoli'n ganolog yn darparu cymorth ymarferol a phersonol i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau, er enghraifft trwy ddarparu cymorth emosiynol ac ariannol. Mae dysgwyr hefyd yn defnyddio'r gofodau hyn fel lleoedd cyfarfod ar gyfer grwpiau cymdeithasol a grwpiau diddordeb arbennig, fel clwb 'Daeargelloedd a Dreigiau' wythnosol.

Mae'r coleg yn darparu amgylcheddau dysgu tawel, hygyrch sy'n cynnwys adnoddau da. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod o ardaloedd tawel a gofodau astudio ar draws pob campws, gan gynnwys yn y llyfrgelloedd a'r 'hybiau'. Er enghraifft, mae dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach yn yr 'hyb' i gwblhau gwaith cwrs, datblygu medrau gan ddefnyddio meddalwedd realiti rhithwir, ac yn defnyddio'r llyfrgell i fenthyca gliniaduron ar fenthyciad tymor byr neu dymor hir. Mae dysgwyr yn gwneud defnydd da o'r gofodau a'r adnoddau hyn ar draws pob campws.

Mae’r coleg yn darparu ystod o gymorth pwysig i ddysgwyr o aelwydydd incwm isel. Mae hyn yn cynnwys cydweithio ag archfarchnadoedd a busnesau eraill sy’n darparu rhoddion. Er enghraifft, gall dysgwyr gael prydau bwyd ar sail angen wedi’i asesu, pecynnau bwyd neu ddillad am ddim trwy brosiect ‘rheilen retro’ (‘retro rail’). Ymhellach, mae’r coleg yn cwblhau asesiadau ‘amddifadedd digidol’ i sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at ddyfeisiau a chysylltedd digidol. Mae’r coleg wedi gweithio’n ddiwyd i addasu amserlenni dysgwyr, lle bo modd, i liniaru heriau â threfniadau cludiant lleol.

Mae’r coleg wedi datblygu gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Ymhellach, mae wedi datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol â phartneriaid gofal iechyd, gan alluogi i ystod ehangach o anghenion dysgwyr gael eu diwallu. Mae arweinwyr wedi sefydlu strwythur staffio addas ar draws pob campws i gefnogi’r dysgwyr hyn o’r cyfnod cyn iddynt gofrestru, er enghraifft yn ystod adolygiadau blynyddol ysgolion, i gynllunio pontio ar ôl y coleg. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw staff yn gwybod ble i gael gwybodaeth am ADY dysgwyr unigol a’r cymorth penodol sydd ei angen ar eu dysgwyr. O ganlyniad, nid yw staff addysgu a staff cymorth bob amser yn gwybod pa rai o’u dysgwyr sydd ag ADY, a’r strategaethau sydd eu hangen i’w cefnogi. Ymhellach, wrth gasglu a gwerthuso data, nid yw’r coleg yn gwahaniaethu’n ddigonol rhwng dysgwyr sydd ag ADY a’r rhai y caiff eu hanghenion cymorth eu diwallu gan ddarpariaeth sydd ar gael yn y coleg, fel arfer. Mae hyn yn rhwystro gallu’r coleg i asesu pa mor effeithiol y mae’n diwallu anghenion dysgwyr ag ADY.

Mae gan y coleg drefniadau pontio cadarnhaol ar waith ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn ymuno â’r coleg, gan sicrhau eu bod yn cael eu pennu i gyrsiau addas, yn setlo’n gyflym ac yn ymwybodol o ble i gael gwybodaeth a chymorth. Yn ychwanegol, mae cynnig pontio estynedig ar waith, lle bo’n briodol, gan gynnwys gweithgareddau ymgyfarwyddo fel ymweliadau ychwanegol â’r campws, cyfleoedd i gyfarfod â staff, a sesiynau rhagflas.

Mae gan y coleg ymagwedd cyngor ac arweiniad, sydd wedi’i hymgorffori’n dda, at baratoi dysgwyr ar gyfer eu camau nesaf trwy eu ‘Tîm Dyfodol’. Mae dysgwyr yn elwa ar gymorth unigol, gan gynnwys cyngor ar yrfaoedd a ffug gyfweliadau. Maent yn gwerthfawrogi’r ffaith fod tiwtoriaid cyrsiau yn mynd ati’n rhagweithiol i rannu cyfleoedd cwrs neu gyflogaeth ar gyfer dilyniant yn y dyfodol.

Mae rhaglen diwtorial y coleg yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddysgwyr ddatblygu medrau a gwybodaeth sy’n cwmpasu testunau yn cynnwys defnyddio alcohol, fepio, a gwrth-hiliaeth. Yn nodedig, mae’r rhaglen yn galluogi adrannau’r coleg i ddewis testunau perthnasol ar lefelau priodol i annog dysgu. Yn ogystal â sesiynau tiwtorial, mae dysgwyr yn elwa ar ystod o siaradwyr gwadd sy’n ymdrin â thestunau fel cynnal ffordd iach o fyw, delio â straen arholiadau, aros yn ddiogel ar-lein a gwasanaethau cymorth cyffuriau.

At ei gilydd, nid yw dysgwyr yn mynychu sesiynau yn ddigon aml. Mae arweinwyr y coleg wedi nodi bod hyn yn cael effaith negyddol ar gyflawniad mewn ychydig o feysydd. Mae'r coleg wedi cyflwyno strategaeth bresenoldeb newydd yn ystod y flwyddyn academaidd hon, er nad yw arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu'n gyson ar draws y coleg. O ganlyniad, mae ymagweddau athrawon at fonitro ac ymateb i bresenoldeb gwael yn amrywio.

Mae gan arweinwyr y coleg ymagwedd sensitif a gwybodus at ddiogelu dysgwyr. Maent yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, yr heddlu a sefydliadau'r trydydd sector i ddarparu cymorth i ddysgwyr. O ganlyniad, caiff dysgwyr eu cefnogi i gryfhau eu dealltwriaeth o berthnasoedd iach, cydraddoldeb, amrywiaeth, gwahaniaethu ac eithafiaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r system electronig a roddwyd ar waith yn ddiweddar ar gyfer cofnodion diogelu i fonitro a gwerthuso pryderon presennol yn effeithiol. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o faterion cyfoes yn y coleg sy'n cefnogi adborth amserol a thargedig, ac yn galluogi staff i gefnogi eu dysgwyr yn well.

### Ciplun 3: Creu gofod ar gyfer sgyrsiau am ddiogelu

Yn ddiweddar, mae tîm diogelu'r coleg wedi cyflwyno cymorthfeydd diogelu rheolaidd ar draws campysau'r coleg. Mae'r rhain yn cynnig cyfle i ddysgwyr neu staff alw i mewn i siarad am unrhyw bryderon ynghylch diogelu, trafod pryderon, neu ofyn am gyngor ac arweiniad. O ganlyniad, mae staff a dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd anffurfiol i ofyn am gyngor a chymorth, ac mae arweinwyr yn casglu gwybodaeth fuddiol am dueddiadau diogelu yn y coleg.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

I wella ymhellach yn y maes hwn, dylai'r coleg:

- Sicrhau ymagwedd gyson at reoli presenoldeb gwael dysgwyr
- Sicrhau bod pob un o'r staff perthnasol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gael gwybodaeth am ADY dysgwyr a sut i ddiwallu'r anghenion hyn
- Mireinio gwerthusiadau o gynnydd dysgwyr ag ADY

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol, a gefnogir yn dda gan ddau is-bennaeth a phum pennaeth cynorthwyol, i osod cyfeiriad strategol clir sy'n cyd-fynd â diben craidd y coleg, sef 'trawsnewid bywydau'. Mae'r pennaeth wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu, tryloywder a diwallu anghenion pob dysgwr. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn ymgysylltu'n dda â staff i gael eu barn trwy gynnal sesiynau holi ac ateb byw, arolygon a grwpiau ffocws rheolaidd.

Mae cynllun strategol 2023-2026 yn cynnwys chwe thema glir, y mae set o amcanion yn sail i bob un ohonynt. Mae'r themâu hyn yn cynnwys dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, safonau, gwella perfformiad a chyfathrebu, recriwtio dysgwyr, y Gymraeg, a chynaliadwyedd ariannol. Mae'r cynllun wedi'i fapio'n ddefnyddiol yn erbyn blaenoriaethau a fframweithiau cenedlaethol allweddol, ac yn offeryn gwerthfawr sy'n helpu gyrru gwelliannau ar draws y coleg.

Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn rhoi cefnogaeth gref i arweinwyr canol ac yn eu grymuso i gyflawni eu rolau ag ymreolaeth. Maent yn gwneud yn siŵr fod arweinwyr canol yn wybodus am flaenoriaethau'r coleg. O ganlyniad, mae arweinwyr canol yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda.

Ceir cyfathrebu da iawn rhwng uwch arweinwyr a llywodraethwyr. Mae llywodraethwyr yn derbyn ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â pherfformiad y coleg sy'n fanwl ac wedi'i hamlinellu'n glir. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn wybodus ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o berfformiad y coleg a'i brif gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae gan lywodraethwyr rôl weithredol mewn gwneud penderfyniadau strategol, gan gynnwys gwariant cyfalaf a darpariaeth y coleg.

Mae'r coleg yn rheoli ei gyllidebau yn briodol ac yn cynnal dadansoddiad buddiol o wariant, yn enwedig o ran gwariannau cyfalaf. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'u cyllideb yn dda i wneud yn siŵr fod gan staff a dysgwyr yr adnoddau sydd eu hangen arnynt, ac o ganlyniad, mae gan y coleg ystod eang o ystafelloedd o ansawdd da, gan gynnwys gweithdai ymarferol ac ystafelloedd dosbarth arbenigol. Fodd bynnag, ar draws pob safle, nid yw mynediad Wi-Fi bob amser yn ddigon dibynadwy i athrawon a dysgwyr ei ddefnyddio'n gyson.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol cynhwysfawr o berfformiad y coleg ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r agweddau allweddol ar y ddarpariaeth. Maent yn defnyddio ystod eang o archwiliadau ansawdd a dangosyddion perfformiad i ddadansoddi eu perfformiad. Mae gan y coleg ddealltwriaeth realistig o'i gryfderau a'i feysydd i'w gwella, gan gynnwys deilliannau dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael yn effeithiol i osod targedau clir ar gyfer gwella. Mae arweinwyr canol yn cynnal hunanwerthusiad cadarn ac yn deall cryfderau a meysydd i'w gwella eu hadrannau, ar y cyfan. Fodd bynnag, mae adroddiadau'n amrywio o ran ansawdd ac nid yw cynlluniau gwella bob amser yn ddigon clir o ran eu cynnwys, eu camau gweithredu na'u graddfeydd amser.

Mae gan y coleg ffocws cryf ar ddiwallu anghenion ei gymunedau lleol. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o nodweddion cymdeithasol ac economaidd y gymuned. I wneud yn siŵr fod yr angen presennol yn cael ei ddiwallu, mae'r coleg yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i ddarpariaeth i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae'r coleg wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau sydd â graddau TGAU is. Mae hyn wedi arwain at ehangu rhaglenni galwedigaethol ar lefel mynediad 3 a gostyngiad yn y galw am raglenni galwedigaethol lefel tri. Caiff y coleg ei gynrychioli ar is-grŵp adeiladu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, ac mae'n cynnig mwy o gyrsiau mewn adeiladu i fodloni'r galw gan ddysgwyr a chyflogwyr.

Mae gan y coleg ymrwymiad clir i ddiwallu anghenion dysgwyr medrau byw yn annibynnol. Caiff cyrsiau eu cynllunio'n effeithiol i helpu dysgwyr i ddatblygu medrau perthnasol, gyda ffocws ar brofiad defnyddiol ac ymarferol yn hytrach nag ar gymwysterau yn unig. Er enghraifft, mae dysgwyr ar raglenni interniaeth a gefnogir yn cael profiad yn gysylltiedig â gwaith i ddatblygu medrau cyflogadwyedd.

Mae'r coleg yn arloesi yn ei ddefnydd o dechnolegau digidol. Mae hybiau digidol ag adnoddau da yn cynnig sesiynau tiwtorial wedi'u hamserlennu ynghyd â mynediad galw i mewn hyblyg. Mae'r sesiynau hyn yn darparu profiadau realiti rhithwir rhyngweithiol, fel cyfweliadau swydd wedi'u hefelychu, y gall dysgwyr fyfyrio arnynt i wella'u perfformiad. Mewn iechyd a gofal cymdeithasol, mae dysgwyr yn elwa ar fodiwlau deallusrwydd artiffisial teilwredig a ddatblygwyd gan staff y coleg, sy'n darparu adnoddau targedig, yn cefnogi ymholi sy'n benodol i bwnc, ac yn cynnwys offer hunanasesu i gynorthwyo paratoi ar gyfer asesiadau allanol. Yn y celfyddydau creadigol, mae staff a dysgwyr yn defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol parod i greu effeithiau gweledol sy'n cyfoethogi cyfleoedd creadigol ac yn ysbrydoli arloesi.

Mae gan y coleg reolwr dwyieithog sy'n cefnogi tîm o dri hwylusydd Cymraeg. Mae'r aelodau staff hyn yn gweithio gyda brwdfrydedd ac egni i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd dysgu blaenoriaeth, mewn gweithgareddau cymdeithasol o gwmpas y coleg, ac fel iaith ddysgu.

Mae dysgu proffesiynol yn ffocws allweddol ac yn flaenoriaeth glir i'r coleg. Caiff athrawon, rheolwyr a staff cymorth ystod eang o gyfleoedd datblygu. Maent wedi sefydlu ymagwedd dargedig at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gwreiddio'n gadarn yng ngwerthoedd allweddol a nodau strategol y coleg, ac mae hyn yn cynnwys ffocws ar les staff. Mae'r ymagwedd hon yn meithrin diwylliant o rymuso a gwella. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu a datblygu ehangach trwy ddiwrnodau hyfforddiant trawsgolegol, cymorth gan hyfforddwyr addysgu a dysgu, a gweithgareddau targedig. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu medrau hyfforddi i wella arfer broffesiynol. Mae'r coleg yn defnyddio'i raglen ar gyfer darpar arweinwyr yn dda i feithrin doniau a chefnogi datblygiad medrau arweinyddiaeth. O ganlyniad, mae'r aelodau staff hyn yn datblygu medrau buddiol mewn arweinyddiaeth ymreolaethol, hyder a phwysigrwydd meithrin diwylliant o ymddiriedaeth.

### Ciplun 4: Arweinyddiaeth wedi'i meithrin yn fewnol

Mae'r Rhaglen Darpar Arweinwyr wedi bod yn hynod lwyddiannus yn meithrin datblygiad doniau ar draws y coleg, gan gyfrannu at ei agenda gwelliant parhaus. Er 2022, mae 92 aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs, a 27% o gyfranogwyr wedi sicrhau dyrchafiadau. Ymgorfforir hyfforddi fel elfen graidd, sy'n atgyfnerthu ymrwymiad y rhaglen i dwf proffesiynol. Mae gwerthusiadau'n dangos gwelliannau nodedig mewn medrau arweinyddiaeth ymreolaethol, hyder, ac ymddiriedaeth gryfach o fewn timau.

I wella ymhellach yn y maes hwn, dylai'r coleg:

- Sicrhau bod hunanwerthuso yn cael ei gynnal mewn modd cyson
- Miniogi'r defnydd o'r holl ddata sydd ar gael i lywio gwella ansawdd
- Gwneud yn siŵr fod camau gweithredu a chyfnodau amser ar gyfer gwella yn glir a manwl gywir

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn achosi unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 20/06/2025